## Ymgysylltiad y Tiwtor Ymarfer ag Athrawon dan Hyfforddiant

Mae Tiwtor Ymarfer yn ymarferydd profiadol sy'n cefnogi athrawon dan hyfforddiant i gysylltu damcaniaeth ac ymarfer, yn asesu cynnydd tuag at Statws Athro Cymwysedig (QTS), yn hyfforddi mentoriaid a chydlynwyr yn yr ysgol, yn gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng myfyrwyr, ysgolion a'r brifysgol, ac yn helpu i sicrhau ansawdd y dysgu ymarferol.

### Dechrau Arni

- Darllenwch y **Llawlyfr Ysgolion Partner**
- Ymunwch â'r sesiwn hyfforddi live '**Hanfodion ar gyfer Tiwtoriaid Ymarfer**' (dolen drwy'r **Gwefan y Bartneriaeth**)
- Ymgyfarwyddwch â'r **Platfform Dysgu Proffesiynol** **(PDP)**, e.e. cyd-destunau eich myfyrwyr (ysgol, llwybr, hynt, mentor, cydlynydd ysgol, profiad, ac ati).
- Ar ôl derbyn eich **Cynlluniwr Tiwtor Ymarfer** drwy e-bost, nodwch yr holl ddyddiadau a gweithgareddau gyda myfyrwyr ac ysgolion.

### IRIS Connect

- Mae **IRIS Connect** yn blatfform diogel, wedi'i amgryptio ar gyfer dysgu proffesiynol mewn ysgolion.. Mae'n cydymffurfio â GDPR a dyma'r unig blatfform i'w defnyddio ar gyfer ein hymweliadau rhithwir.
- Mae yna **Hwb Cymorth** am diwtorialau byr, defnyddiol.
- Rhannwch **'Mat IRIS'** i gefnogi eich myfyriwr.

### Cwestiynau...?

Canllawiau a Hyfforddiant: **Gwefan y Bartneriaeth**

**Sesiwn galw heibio** wythnosol bob dydd Llun am 3.30yp

TAR-Cymru@open.ac.uk

### Cyn yr Ymweliad

- Cysylltwch yn gynnar â'ch myfyriwr a'r 'Tîm o amgylch y Myfyriwr' (drwy e-bost neu alwad fer ar Teams).
- Cynlluniwch ddyddiadau ar gyfer y flwyddyn ar y cyd er mwyn sicrhau eglurder ynghylch disgwyliadau.
- Olrhain cynnydd yn rheolaidd drwy PDP y myfyriwr. Mae'r offeryn olrhain targedau yn darparu dealltwriaeth gyffredin o anghenion datblygu rhyngoch chi, y myfyriwr a'r ysgol.
- Cytuno ar ffocws a dyddiad y wers IRIS Connect. Cytuno ar y fformat ar gyfer adborth a dyddiadau trafod. Cadarnhau pryd y byddwch yn derbyn cynllun y wers, y gwerthusiad a'r adnoddau gan yr OU ar y PDP.
- Cofiwch addasu disgwyliadau yn ôl cam astudio'r myfyriwr (mae TAR1 a 2 yn datblygu'n raddol tuag at wersi cyfan).
- Anfonwch ddolen cyfarfod Teams ac unrhyw ddrafft o'r agenda ymlaen llaw at y myfyriwr, y Mentor, Cydlynydd yr Ysgol, ac [er gwybodaeth] at Diwtor y Cwricwlwm a'r Prif Diwtor Ymarfer (PDY).

### Yr Ymweliad Rhithwir

- Adolygwch addysgu'r myfyriwr drwy **IRIS Connect**. Gallwch ychwanegu sylwadau yn uniongyrchol i'r recordiad.
- Gwiriwch dystiolaeth y PDP. Darllennwch y ffurflen arsylwi a gwblhawyd gan y Cydlynydd Ysgol er mwyn triongli.
- Cynhaliwch gyfarfod ar-lein gyda'ch myfyriwr, eich mentor ac, os yn bosibl, â chydlynydd yr ysgol.
- Adolygu cynnydd yn erbyn targedau'r Mentor / Cydlynydd Ysgol.
- Cytuno ar farnau cyffredinol, gan ddefnyddio'r **Fframwaith Cynnydd** i gefnogi'r broses asesu.
- Defnyddiwch y cwestiynau myfyriol (gweler Pecyn Cymorth) i arwain deialog feirniadol ac adlewyrchol.
- Cadarnhewch pryd y bydd y Ffurflen Adolygu Ymarfer (ymweliad 1) neu Adran C o'r Adroddiad Dysgu Ymarfer (ymweliad 2) ar gael drwy PDP y myfyriwr.



### Ar ôl yr Ymweliad

- Gan ddefnyddio'r rhestr wirio ar gyfer ysgrifennu adroddiadau yn y **Pecyn Cymorth i Diwtoriaid Ymarfer**, cwblhewch y Ffurflen Adolygu Ymarfer (ymweliad 1) neu Adran C o'r Adroddiad Dysgu Ymarfer (ymweliad 2) drwy PDP y myfyriwr. Cadarnhewch gyda'r myfyriwr, a'r 'Tîm o amgylch y Myfyriwr', ei fod yn barod i'w ddilysu.
- Yn ystod yr ail ymweliad, os yw eich asesiad yn wahanol i'r rhai yn Adrannau A a B, trefnwch alwad gymedroli gyda Chydlynydd yr Ysgol; os na ddatrysir y mater, cwblhewch Adran C gan ddefnyddio eich barn eich hun.
- Gallwch ddilyn i fyny gyda'r Mentor a Chydlynydd Ysgol i gynnig cefnogaeth mentora neu i ofyn unrhyw gwestiynau pellach i gwblhau'r **Ffurflen Monitro Ymarfer Dysgu** (byddwch wedi casglu rhywfaint o wybodaeth yn ystod yr ymweliad rhithwir hefyd). Mae hyn yn cefnogi cymedroli a sicrhau ansawdd asesu a lleoliadau ledled y bartneriaeth.
- Codwch unrhyw bryderon am gynnydd cyn gynted â phosibl gyda'r Tiwtor Cwricwlwm; os nad yw' myfyriwr ar y trywydd iawn, efallai y bydd angen ymarfer dysgu ychwanegol a/neu ymweliadau pellach
- Pan fydd gweithgaredd eich ymweliad wedi'i gwblhau, cadarnhewch hynny gyda'ch **Tiwtor Ymarfer Arweiniol**. Os na allwch gyrraedd y dyddiad cau a nodwyd, rhowch wybod i'ch Tiwtor Ymarfer Arweiniol a/neu anfonwch e-bost at TAR-Cymru@open.ac.uk.